231797 CEAN01 07/12/07 07/12/07 Giovanna Viscido -Composite Proof




# Cyfleoedd newydd ar gyfer cyllido prosiectau datblygu gwledig newydd o fewn Ceredigion.

## Datganodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Orffennaf 4ydd fod prosiectau yng Ngheredigion nawr yn cael cyfle i gael mynediad i raglen newydd ar gyfer cyllido datblygu gwledig.

Croesawodd yr Athro Roy Evans OBE Cadeirydd Partneriaeth Adfywio Economaidd Ceredigion y datganiad. 'Mae hwn yn newydd da iawn ar gyfer ein Sir ac mae'n rhoi cyfle i ni wneud cais am gyllid ar gyfer prosiectau a fydd yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i Geredigion gyfan'.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cael mynediad i'r Gronfa Amaethyddol Ewropeaidd ar gyfer y Cynllun Datblygu Gwledig yng Nghymru dros y 6 mlynedd nesaf. Mae cryn helaeth o'r cynllun yn delio gydag amaethyddiaeth, cynnyrch amaethyddol, yr amgylchedd a choedwigaeth a chaiff ei gyflwyno gan y Cynulliad ei hun. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ychwanegu arian sylweddol at y cyllid Ewropeaidd.

Caiff oddeutu £103M ei gyflwyno drwy bartneriaethau gwledig lleol yng Nghymru. Yng Ngheredigion, bydd hyn yn digwydd drwy ddwy bartneriaeth: Partneriaeth Adfywio Economaidd Ceredigion a Phartneriaeth Cymunedau Cryfach; byddant yn cefnogi prosiectau er mwyn gwneud cais am yr adnoddau hyn.

Mae'r erthygl hwn yn amlinellu sut y gall partneriaethau Ceredigion geisio symbylu'r economi wledig yma a pha fath o weithgaredd prosiect y maent am ei weld yn derbyn cefnogaeth.

### *Sut Fydd yn Gweithio*

Gofynnir i'r partneriaethau gyflwyno rhannau penodol o'r Cynllun Datblygu Gwledig yng Ngheredigion. Tra bod ganddynt weledigaeth ("Strategaeth") ynglŷn â pha fath o weithgaredd economaidd gwledig sydd ei angen ac mae hyn wedi ei gymeradwyo gan Lywodraeth y Cynulliad erbyn hyn, yr hyn sydd ei angen yn awr yw nifer o bartneriaid drwy'r Sir er mwyn cyflwyno hyn drwy becynnau gweithgaredd prosiectau a ddiffiniwyd yn glir ac a ariannir yn rhannol gan y Cynllun Datblygu Gwledig ac yn rhannol gan eraill. Yn y lle cyntaf mae'n rhaid i'r prosiectau hyn gael eu cyflwyno ar gyfer eu gwerthuso ym mis Medi, fel y gall y gweithgaredd ddechrau yn fuan yn 2008 gan yna barhau hyd at 3 mlynedd. Bydd ail gyfnod yn parhau o 2011 hyd 2013.

### *Math o Weithgaredd*

Er y bydd angen i'r holl brosiectau fod yn gymedrol o ran maint gan anelu tuag at symbylu'r economi leol yng Ngheredigion, mae dau fath o weithgaredd prosiect posibl. Yn gyntaf, ceir y prosiectau hynny gydag effaith clir gydag allbynnau wedi eu diffinio'n eglur; gelwir y rhain yn brosiectau "Axis 3" a bydd Partneriaeth Adfywio Economaidd Ceredigion yn delio â hwy. Yn ail, bydd y prosiectau hynny sydd yn arloesol gydag elfen o arddangos a risg; gelwir y rhain yn "brosiectau Axis 4 a Phartneriaeth Cymunedau Cryfach sydd yn delio â nhw.

### *Beth Fydd Prosiectau yn ei Wneud*

Mae natur y prosiect yn awr yn eglur ac yn cael ei nodi gan reoliadau a gan strategaethau partneriaethau: -

* Creadigaeth & Datblygiad Micro Fenter: Amcan hyn fydd sefydlu a datblygu mentrau micro a fydd yn gwneud gwahaniaeth go iawn i'r economi wledig. Mae cynnyrch sydd yn seiliedig ar wybodaeth, ynni adnewyddadwy a chynnyrch bwyd lleol yn enghreifftiau o'r math o fentrau micro a ragwelir ond gall eraill fod yn bosibl
* Annog Gweithgaredd Twristiaeth: Amcan hyn fydd cyllido buddsoddiadau a dargedwyd yn ddaearyddol mewn adeiladau, isadeiledd neu gyfleusterau ar raddfa fechan. Cynllunnir buddsoddiadau mewn twristiaeth amgylcheddol ar raddfa fechan a digwyddiadau lleol sydd yn ychwanegu at brofiad twristiaeth. Mae cynlluniau marchnata sydd yn canolbwyntio ar gryfderau Ceredigion a'i chefnogaeth i gynnyrch gwledig gwerth ychwanegol ar raddfa fechan hefyd yn bosibilrwydd.
* Gwasanaethau Elfennol ar gyfer yr Economi Wledig & Poblogaeth: Amcan hyn yw cyllido cyfleusterau cymunedol pentref ar raddfa fechan sydd yn gwella'r amgylchedd adeiledig neu naturiol gan gyfrannu at ansawdd bywyd mewn cymunedau gwledig. Mae yna gynlluniau i wneud buddsoddiadau bychain mewn gwasanaethau sylfaenol a fydd yn cyfrannu tuag at les y boblogaeth wledig a allai gynnwys cynlluniau cludiant arloesol a arweinir gan y gymuned.
* Adnewyddu Pentrefi & Datblygiad & Chadwraeth/Uwchraddio Cynlluniau Treftadaeth Gwledig ar gyfer buddsoddiadau ar raddfa fechan yn nhreftadaeth adeiledig Ceredigion, yn enwedig yn y pentrefi yn ardal Cymunedau Yn Gyntaf Ucheldir Tregaron. Mae angen buddsoddiad ar raddfa fechan yng nghynlluniau amgylcheddol Ceredigion a chynlluniau a dargedwyd i ddelio â'r newid sydd ei angen.
* Hyfforddiant a Gwybodaeth: Y bwriad yw i hyfforddiant fod ar gael na ddarparir fel arfer gan raglenni addysg uwchradd neu uwch, yn enwedig lle bydd yr hyfforddiant hwn yn galluogi unigolion i ennill incwm ychwanegol, lleihau anfantais economaidd neu efallai ddysgu sgiliau traddodiadol sydd eu hangen i gwrdd ag anghenion treftadaeth Ceredigion.
* Dysgu Sgiliau & Animeiddio: Cynllunnir gweithgaredd er mwyn dod o hyd i ffynonellau incwm ychwanegol ar gyfer teuluoedd sydd yn ffermio, y gymuned wledig a grwpiau cymunedol. Y bwriad yw datblygu gweithgaredd rhyng-genedlaethol er mwyn symbylu trosglwyddo sgiliau ac addasu gofynion cyfredol y farchnad. Anogir rhwydweithio a mentora rhwng grwpiau ac unigolion er mwyn rhannu gwybodaeth ar bynciau megis prynu, marchnata a dosbarthu.

### *Beth Sydd yn Digwydd Nesaf*

Mae partneriaethau Ceredigion yn awr yn edrych am syniadau ar gyfer prosiectau a fydd yn cyfrannu tuag at gyflwyno rhannau o'r Cynllun Datblygu Gwledig. Mae'r broses yn gystadleuol ar draws Cymru wledig; bydd Ceredigion ond yn "ennill "cyllid ar gyfer datblygu gwledig yn y cyfnod hwn hyd at 2001 os bydd prosiectau o ansawdd da wedi dod ymlaen erbyn mis Medi hwn.

Hoffai'r Partneriaethau felly glywed oddi wrth unrhyw un sydd â syniad priodol am brosiect ac sydd yn barod i ddatblygu'r syniad lle mae'n gydnaws gyda'r cynlluniau manwl uchod.

**Am y naill bartneriaeth neu'r llall, cysylltwch â 01545 572063 neu e-bostiwch ewro@ceredigion.gov.uk**

**Gellir gweld manylion llawn am strategaethau'r Bartneriaeth ar: www.euceredigion.com**

Paratowyd gan Gorff Arweiniol Partneriaethau Adfywio Economaidd a Chymunedau Cryfach; cyllidwyd gan Gyngor Sir Ceredigion

# New opportunities for funding rural development projects within Ceredigion.

## Welsh Assembly Government announced on Wednesday 4th of July that projects in Ceredigion now have an opportunity to access a new programme of rural development funding.

Professor Roy Evans OBE Chair of the Ceredigion Economic Regeneration Partnership welcomed the announcement. 'This is very good news for our County and gives us the opportunity to bid for funding for projects that will make a significant difference to all of Ceredigion'.

The Welsh Assembly Government is accessing the European Agricultural Fund for Rural Development to deliver the Rural Development Plan (RDP) for Wales over the next 6 years. Much of the plan deals with agriculture, agricultural products, the environment and forestry and will be delivered by the Assembly itself. WAG will add significant money to the European funding.

Around £103M will be delivered through local rural partnerships in Wales. In Ceredigion, this will happen through two partnerships: the Ceredigion Economic Regeneration Partnership and the Stronger Communities Partnership; they will support projects to bid for these resources.

This article outlines how the Ceredigion partnerships will seek to stimulate the rural economy here and what sort of project activity they wish to see supported.

### *How It Will Work*

The partnerships are asked to deliver certain parts of the RDP in Ceredigion. Whilst they have a vision ("Strategy") as to what sort of rural economic activity is needed and this has now been approved by the Assembly Government, what is needed now are a number of partners throughout the County to deliver this through clearly defined packages of project activity that will be part financed by the RDP and part financed by others. Initially these projects have to be submitted in September for appraisal, so that activity can start in early 2008 and then last for up to 3 years. A second phase will cover 2011 to 2013.

### *The Type of Activity*

Although all projects will need to be modest in size and aim to stimulate the rural economy in Ceredigion, there are two potential types of project activity. First, there will be those projects that are clear in their impact with well-defined outputs; these are known as "Axis 3" projects and will be handled by the Ceredigion Economic Regeneration Partnership. Secondly, there will be those projects that are particularly innovative and have an element of demonstration and risk; these are known as "Axis 4" projects and will be handled by the Stronger Communities Partnership.

### *What Projects Will Do*

The nature of project activity is now clear and is set by both regulations and by the partnerships' strategies: -

* Micro Enterprise Creation & Development: This will aim to fund the establishment and development of micro enterprises that make a real difference to the rural economy. Knowledge based products, renewable energy and local food products are examples of the sort of micro enterprise envisaged but others may be possible.
* Encouragement of Tourism Activity: This will aim to fund geographically targeted investment in small-scale accommodation, infrastructure or facilities. Investment in small-scale environmental tourism and local events that add to the tourism experience is planned. Marketing initiatives that focus on Ceredigion's strengths and support for small-scale added value rural products is also a possibility.
* Basic Services for the Rural Economy & Population: This aims to fund small-scale village community facilities that improve the built or natural environment and contribute to the quality of life in rural communities. There are plans to make small investments in basic services that contribute to the well being of the rural population which could include innovative community led transport initiatives.
* Village Renewal & Development and Conservation / Upgrading of the Rural Heritage Plans for small-scale investment in Ceredigion's built heritage, particularly in those settlements in the Tregaron Uplands Communities First area. Small-scale investment in Ceredigion's environment and targeted initiatives to address climate change are needed.
* Training and Information: There is an aim for training to be made available that is not normally provided by secondary or higher education programmes, particularly where this training will enable individuals to earn extra income, reduce their economic exclusion or perhaps learn some traditional skills needed to meet the needs of Ceredigion's heritage.
* Skills Acquisition & Animation: Activity is planned to identify additional sources of income for farming families, the rural community and community groups. There is an aim to develop intergenerational activity to stimulate skills transference and adapt to current market needs. Networking and mentoring between groups and individuals to share knowledge on subjects like purchasing, marketing and distribution will be encouraged.

### *What Happens Next*

The Ceredigion partnerships are now looking for projects ideas to come forward that will contribute to the delivery of their parts of the RDP. The process is competitive across rural Wales; Ceredigion will only "win" funding for rural development in this first phase up to 2010 if good quality projects have come forward by this September.

The partnerships would therefore like to hear from anyone with an appropriate project idea and a willingness to develop that idea where it is consistent with the plans detailed above.

**For either partnership please contact 01545 572063 or email ewro@ceredigion.gov.uk**

**Full details of the Partnership's strategies can be viewed at: www.euceredigion.com**

Prepared by the Lead Body to the Ceredigion Economic Regeneration and Stronger Communities Partnerships; funded by Ceredigion County Council.

231797